

Mae'r athrawon yn dweud:

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Rydyn ni'n dweud:

Gallaf wneud fy ngorau a mwynhau herio fy hun.

Gallaf ddefnyddio gwybodaeth i ddatrys problemau.

Gallaf siarad ac ysgrifennu ym mhobman (Cymraeg a Saesneg).

Gallaf siarad am syniadau a rhoi fy marn.

Gallaf gasglu data a defnyddio technoleg.

Gallaf edrych i mewn i bethau a thrafod yr hyn rydw i wedi'i ddarganfod. Gallaf ddefnyddio rhifau'n gywir.

Mae'r athrawon yn dweud: Unigolion iach, hyderus, yn barod i fw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Rydyn ni'n dweud:

Rwy'n parchu pawb.

Rwy'n gwrandao ar bob barn cyn gwneud penderfyniad fy hun.

Gallaf ddarganfod beth sy'n digwydd yn y byd nawr ac yn y gorffennol.

Rwy'n gwybod beth sy'n iawn a beth sy'n anghywir.

Rwy'n gwybod sut i ofalu am y byd.

Rwy'n deall bod fy llais yn bwysig a bod gen i hawliau.

Rwy'n deall bod yr hyn rwy'n ei wneud yn cael effaith ar y pethau o'm cwrpas.

Mae'r athrawon yn dweud:

Dinasyddion moesegol gwybodus Cymru a'r Byd.

Rydyn ni'n dweud:

Rwy'n hyderus i berfformio.

Rwy'n datblygu hyder, gwydnwch a dealltwriaeth o deimladau pobl eraill.

Gallaf ddangos caredigrwydd i bawb.

Gallaf weithio ar fy mhen fy hun a chwblhau pethau'n annibynnol.

Rwy'n gwybod sut i aros yn iach ac ymarfer corff.

Rwy'n gwybod sut i gadw'n ddiogel ac yn iach.

Rwy'n barod i gwblhau her. Dydw i ddim yn rhoi'r gorau iddi pan fydd pethau'n mynd yn anodd.

Rwy'n gwybod y dylai fy nghyfeillgarwch fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth, caredigrwydd a gofal.

Mae'r athrawon yn dweud:

Cyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

Rydyn ni'n dweud:

Defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod eisoes a'r hyn rwyf wedi'i ddysgu i greu syniadau newydd.

Rwy'n barod i ddysgu. Gallaf roi cynnig ar bethau newydd.

Gallaf weithio mewn grŵp/tîm.

Gallaf rannu syniadau a theimladau mewn sawl ffordd wahanol.

Rwy'n meddwl eto ac yn gwella pethau.

Gallaf wneud rhywbeth brawychus neu newydd ond rwy'n meddwl yn ofalus yn gyntaf, i wneud yn siŵr nad yw'n beryglus.